
# Anwedd a Llwydni



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

# Anwedd a Llwydni

Nid yw anwedd a llwydni a achosir gan anwedd bob amser o ganlyniad i ddiffygion ar eiddo. Fel arfer, gall y perchnogion eu rheoli drwy addasu sut maent yn byw yn eu cartref. Mae'r cyngor yn derbyn llawer o gwynion am broblemau lleithder mewn cartrefi gan denantiaid sy'n rhentu gan landlordiaid preifat. Mewn sawl achos, anwedd yw'r broblem lleithder hon mewn gwirionedd.

# Beth yw anwedd?

Bydd yr aer yn eich cartref bob amser yn cynnwys rhywfaint o leithder. Nid yw hyn fel arfer yn peri problem. Fodd bynnag, pan fo'r aer yn oeri, ni all gadw'r holl ddŵr a gynhyrchir gan weithgareddau arferol pob dydd y perchennog, felly bydd diferion bach o ddŵr yn ffurfio. Anwedd yw hwn.

Fel arfer, mae'r diferion hyn yn ffurfio ar arwynebau oer fel ffenestri, drychau, teiliau a waliau allanol. Mae hyn hefyd yn gyffredin mewn mannau lle nad yw aer yn symud llawer, fel mewn corneli a'r tu ôl i gelfi. Efallai y byddwch weithiau'n gweld tystiolaeth o anwedd ar ddillad wedi'u storio yn eich cwpwrdd am nad oes llawer o aer yn cylchredeg yno.



Mae anwedd wedi ffurfio yn yr ardal hon, lle mae aer nad yw'n cylchredeg yn dda a waliau allanol oer yn cyfuno i greu'r amodau perffaith i lwydni dyfu.



Mae anwedd difrifol yn yr ystafell wely hon wedi achosi i'r papur wal gwympo oddi ar y wal. Dylai agor y ffenestr ychydig a gwresogi'r ystafell yn ddigonol helpu i leihau'r problemau yn yr ystafell hon.

Gall gormod o anwedd beri i lwydni dyfu, sydd fel arfer yn ddu. Gellir cael gwared ar dwf llwydni trwy ei sychu â lliain.

## Sut i drin anwedd

I ladd a chael gwared ar lwydni, sychwch y mannau yr effeithir arnynt (e.e. waliau a fframiau) bob ychydig ddiwrnodau gyda golchiad ffwngleiddiadol. (Dylai hwn fod â rhif cymeradwyaeth gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, a rhaid i chi ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn ofalus.) Dylai hyn fod yn rhan o'ch trefn olchi reolaidd. Dylech sychlanhau dillad yr effeithir arnynt gan lwydni a glanhau carpedi.

## Beth sy'n achosi anwedd?

- **Gormod o leithder yn eich cartref;**
- **Dim digon o awyru yn eich cartref;**
- **Gwresogi annigonol.**

## Sut gallaf i atal anwedd yn fy nghartref?

**Gallwch gynhyrchu llai o leithder a chynyddu awyru drwy:**

- Sychu dillad y tu allan;
- Agor ffenestri os oes rhaid i chi sychu dillad y tu mewn;
- Peidio â sychu dillad ar reiddiaduron;
- Cau drysau'r gegin wrth goginio;
- Defnyddio caeadau ar botiau a phadellau wrth goginio ac agor ffenestri'r gegin;
- Cau drysau'r ystafell ymolchi wrth redeg bath neu ddefnyddio gawod;
- Defnyddio gwyntyllau echdynnu mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi os ydynt ar gael;
- Osgoi defnyddio gwresogyddion nwy neu baraffîn heb ffliw(iau);
- Sicrhau bod y bibell ar beiriant sychu dillad wedi'i awyru i'r tu allan;
- Sicrhau bod agorfeydd diferynnu mewn ffenestri PVC yn cael eu defnyddio a'u cadw mewn cyflwr da;
- Cadw ffenestri yn gilagored mewn ystafelloedd gwely dros nos (bydd cliciedau nos ar y rhan fwyaf o ffenestri PVC at y diben hwn);
- Bod heb ormod o bobl yn byw yn eich cartref. Mae mwy o bobl yn golygu mwy o leithder;
- Sicrhau y gall aer gylchredeg mewn cypyrddau a wardrobau drwy beidio â'u gorlenwi;
- Cadw celfi i ffwrdd o waliau allanol i sicrhau y gall aer gylchedeg i'r mannau hyn.

## ***Gallwch sicrhau bod eich cartref wedi'i wresogi'n ddigonol drwy:***

- Gadw eich gwres ymlaen yn isel drwy'r dydd yn ystod tywydd oer;
- Ceisio gwresogi pob ystafell yn eich cartref, am y gall anwedd fod yn waeth pan fo rhai ystafelloedd yn gynnes ac eraill yn oer;
- Sicrhau bod eich cartref wedi'i insiwleiddio'n ddigonol.



Cysylltwch â'ch landlord os yw gwyntyll echdynnu wedi torri, neu os oes twf llwydni er bod y gwyntyll wedi bod yn gweithio'n gywir.

### ***Rwyf wedi rhoi cynnig ar yr holl awgrymiadau hyn, ond mae problem gennyf o hyd. Beth dylwn ei wneud?***

Os ydych yn denant mewn cartref a rentir yn breifat a'ch bod yn dal i bryderu am anwedd a llwydni, gall swyddog o'r cyngor ddod i ymweld â chi ac arolygu eich cartref. Bydd rhaid i ni roi gwybod i'ch landlord am unrhyw ymweliad a gynhelir gennym.

Efallai y bydd rhai achosion lle gall cynllun ac adeiladwaith eiddo gyfrannu at broblem anwedd. Gallai hyn olygu y dylai eich landlord drefnu awyru ychwanegol, darparu system wresogi fwy effeithiol neu gynyddu'r insiwleiddio yn eich cartref. ***Dylech bob amser siarad â'ch landlord yn y lle cyntaf ynghylch unrhyw bryderon sydd gennych am anwedd a llwydni yn eich cartref.***

## ***Manylion cyswllt am gyngor pellach***


**Is-adran Tai ac Iechyd Cyhoeddus, Adran yr Amgylchedd, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN.**

Ffôn: **01792 635600** Minicom: **01792 635609**

Ffacs: **01792 635797**

E-bost: **evh@swansea.gov.uk**

Gwefan: **www.abertawe.gov.uk/privaterentedhousing**


Os hoffech yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, fel Braille, print bras etc, cysylltwch â ni.

26603-11